

GAIR AM GELF.

Cyhoeddwyd yn Taliesin, rhifyn Awst 2004

Beth hoffwn i wneud yn y traethawd hwn yw olrhain natur y sgwennu dwi fy hun yn ei wneud, a trio ei ddadansoddi neu esponio.. nid fel peth arwahan i'r peintio ar celf gweledol, ond fel rhan annatod or 'broses' greadigol i mi fel artist. Dim dweud ydwi fod fy sgwennu yn gelfyddyd, ond ei fod yn rhan or ymchwil, neu fframwaith sydd yn fy ngalluogi i wneud 'celf'.

Y goel gyffredinol yw fod ffrwd celf yn y ganrif ddiwetha' wedi fforchio yn ddwy, un yn deillio o law Picasso, ar llall o ymerydd Duchamp, y ddwy ffrwd yn hollol anghytyn, un yn synhwyrol a'r llall yn ddeallusol. Mewn ffordd, mae tuedd i weld gwaith peintio neu gerflunio fel rhywbeth 'or pridd', bron fel gwaith ffarmwr, s'dim rhaid ei esponio trwy eiriau ffansi...tra ar y llaw arall mae gwaith mwy cysyniadol', ble mae'r 'gair' yn cael ei godi yn uwch na'r gwaith ei hun.

Fel pob coel arall, nid yw hon yn hollol gywir. Mae llawer o eiriau Picasso wedi eu cyhoeddi, geiriau sydd yn gymorth mawr i werthfawrogiad oi gelf ef a chelf pobol eraill, ac mae cymaint neu fwy wedi ei sgwennu am gelf Duchamp ai ddilynwyr sydd heb ychwanegu nemor ddim at ddealt-wriaeth, yn wir i'r gwrthwyneb. Mae na elfen o sgwennu fel hyn sydd yn ymfalchio mewn bod mor gaeedig ac 'esoteric' ac sydd yn bosib. Clwb bach o academwyr celf yn unig sydd yn llwyr ymwneud yn y byd hwn, ac mae bron wedi datgysylltu ei hyn oddiwrth y testyn mae'n tystio sydd dan sylw. Yn aml iawn artistiaid yw'r bobol ore i sgwennu yn ddealladwy am gelf, ond nhw hefyd ywr pechadurion mwyaf pan ddaw at balu yr hyn a elwir yn 'artbollocks'. Mae rhai yn hoff o esponio eu gwaith yn ddidwyll, ac eraill yn credu mae swyddogaeth y gynulleidfa (ar beirniaid celf) yn unig yw dehongli.

Maer holl fusnes o 'sgwennu am gelf yn mynd yn ol i ddyddiau cynnar celf Ewrop. Heb wneud ymchwil, tydwi ddim mor gyfarwydd a chelf gweddill y byd yn y cyswllt hwn, ac wrth gwrs, y tuedd i ni yw edrych ar Ewrop/ UDA fel petai dim arall o bwys..

RHESYMAU DROS YSGRIFENNU 1.

Mae wedi dod yn amlwg i mi erbyn hyn mod i yn berson sydd ag angen 'esponio ei hyn'. Dwi ddim yn hapus os nad yw pobl eraill yn fy nghwmni yn 'deall' sut dwi'n teimlo am rywbeth, neu beth ydwi'n i olygu. S'dim ots gan rai pobl ddau wfft be ma pobl yn fesddwl, ond dwi o hyd yn poeni rhag ofn i mi gamarwain rhywun, neu iddyn nhw gamddeall be sgennai mewn golwg.

Falle, fellu, mae dyna pam dechreuais wneud llunie, i gyfleu pethe... ac o dipyn i beth, deall fod yb rhaid i mi wedyn esponio fy llunie. Hyny yn gynta drwy siarad amdanynt, ac yna drwy sgwennu amdanynt. Rhaid i mi ddweud nad yw hyn yn beth cyffredin ir mwyafrif o artistiaid er fod traddodiad hir yn mynd yn ol i Cellini ai hunanfywgraffiad enllibys, enwog. Yn ddiweddarach bu i Augustus John sgwennu am ei fywyd, ond yn fwy perthnasol mae esiampl David Jones o greu llenyddiaeth a damcaniaeth, polemics sydd ai gwreiddiau ym mater Prydain.

Maen sgwennu yn help mawr i esponio fy ngwaith celf i mi fy hun, dwi'n dysgu mwy amdano drwy feddwl amdano mewn ffordd parallel rhywsut. Help i fynd at 'wraidd y mater'. Gwneud cwrs MA yng Nghaerdydd nath fforsio fi mewn i sgwennu yn y lle cynta, a darllen yn fwy eang am gelf yn gyffredinol. Wedyn, o gael cyfranu at lyfr Tony Curtis, Welsh Painters Talking, fe ddos i gysylltiad efo Mick Felton yn Seren, a daeth y syniad o roi llyfr o draethodau at ei gilydd yn bosibiliad gwirioneddol. Dyna syt ddaeth Certain Welsh Artists i fodolaeth yn 1999. Ilyfr oedd hwn yn trafod gwaith artistiaid oedd yn trafod eu Cymreictod, eu hunaniaith, mewn gwahannol ffyrdd yn eu gwaith, fellu roedd traethodau ynddo gan Ivor Davies, Glyn Jones, Peter Finnemore a John Meirion Morris, a thraethodau am Lois Williams, Bethan Huws, catrin williams a Tim Davies. Rh-

esymeg trafod hyn,(yr artistiaid oedd yn sicr Certain o'i Cymreictod yn ogystal a bod yn ddim ond ambell un), oedd i mi sylwi o wario peth amser yn Nulyn ar ddechrau'r 90au, fod hyn eisoes wedi ei drafod yn Iwerddon. Syniad o drafodaeth ol-drefedigaethol sydd wrth wraidd y testyn, a bu hyn o ddiddordeb mawr i mi byth ers y cwrs MA, ac hefyd o ddilyn dau ymweliad i Zimbabwe fel artist preswyl yn yr Oriel Genedlaethol yno yn 1990, ar ail dro i ffilmio ar gyfer rhaglen i S4C a gyfarwyddwyd gan Meical Bailey Hughes yn 1994. Ta waeth am hyn, cefais mae un ffordd o ymwneud a Chymreictod oedd drwy prism y syniadaeth fyd-eang hon, syniadaeth oedd yn cael ei throsglwyddo yn bennaf drwy waith ysgrifennu pobl fel Edward W Said, (yn dilyn gwaith arloesol y Cymro Raymond Williams) ,Thomas Mac Evilly, Gerardo Mosquero, Rashid Araeen (a greodd y cylchgrawn celf Third Text i drafod syniadau fel hyn), ac yn amlygu eu hyn mewn gwaith celf nad oedd ar y pryd iw weld yn aml ym Mhrydain. Gwaith artistiaid yn America Ladin, Ciwba, Affrica, gwlad y Basg. Drwy'r ysgrifau y deais i wybod am y celf ac nid y ffordd arall rownd, a thrafeilio wedyn i drio gweld gwaith yr artistiaid, ac ambell dro eu cyfarfod. R'oedd hyn yn profi i mi fod posib i ysgrifau ar gelf fod yn allweddol yn ei wneud yn weladwy... nid yn unig, fel y mae Peter Lord wedi brofi, o wneud y gorffennol yn weladwy lle gynt r'oedd gwagle, ond y presenol hefyd. Onid oedd angen gwneud celf cyfoes Cymru yn fwy gweladwy i bobl Cymru yn ogystal ar byd mawr tu allan?

Yn dilyn, neu ar y cyd a gweithio i olygu a chrynhoi Certain Welsh Artists teimlais hefyd y dylswn wneud rhyfaint o sgwennu yn y Gymraeg, ac fe fu'm yn lwcus o gael Gwasg Carreg Gwalch i gyhoeddi Darllen Delweddau yn 2000. Pennodau bur yn rhoi cefndir i waith 26 o artistiaid cyfoes amrywiol iawn, efo un ddelwedd gan bob un oedd hefyd yn cael eu ddehongli drwy lygaid beirdd. Ceisio profi oeddwn, fod modd 'darllen' pob delwedd drwy gael allwedd i agor y drws arno fel petai. Roedd hyn i raddau yn dilyn y profiad o arddangos ac ymwneud efo arddangosfa Gelf a Chrefft yr Eisteddfod Genedlaethol.

R'oeddwn yn ffeindio fy hun mewn sefyllfa o fod yn ymwybodol mae chydig iawn oedd yn cael ei sgrifennu am waith cyfoes neb arall, fy nghyfoedion yn y byd celf yng Nghymru., ac yn ogystal ir ddwy gyfrol uchod, fe es ati i sgwennu traethodau i Planet, ar artuistiaid a chelf gyfoes. Da-eth 'Offrymau ac Ailddyfeisiadau' yn ddwyieithog, ar fy ngwaith fy hun ar achlysur arddangosfa yn Ionawr 2000, nesa, yn gyd gynhyrchiad rhwng Seren ac Oriel 31, rhywbeth sydd wedi dod yn ran mwy arferol o batrwm cyhoeddi yng N hymru bellach. Mae Seren wedi cyhoeddi ar y cyd efo Ffotogaleri, Oriel y Glynn Vivian, Abertawe ac Oriel 31 eto,

RHESYMAU DROS YSGRIFENNU 2.

Rhesymau cymdeithasol a hanesyddol yw y rhai uchod. Pan mae artistiaid yn dewis troi ei llaw at sgwennu, mae hyn o reidrwydd yn aml gan nad oes necb arall yn rhoi sylw ysgrifenedig i'w gwaith, fellu does dim dissemination. Mae sefyllfa artistiaid duon ym Mhrydain yn enghraifft dda, Rashid Araeen, neu artistiaid fel Art + Language, artistiaid lleiafrifol, feministiaid ayb, er mwyn sicrhau lle iddynt eu hunain yn y drafodaeth fwy eang. Ond mae hefyd yn sicr resymau mwy personol, sydd yn deillio o gefndir a magwraeth efallai...

Dwi'n teimlo mai sgwenu 'esponiadol' dwi'n wneud a dim 'beirniadol'. A fod hyn yn creu fframwaith o ddealtwriaeth er mwyn creu mwy o ddiddordeb cyffredinol yn y celfyddydau gweledol, ac mewn ffordd eitha hunanol, derbyniad gwell i fy ngwaith fy hun. Fellu dwi ddim yn teimlo fod y sgwenu yn orchwyl (dwi'n mwynhau ei wneud yn un peth) sydd yn gwblw arwahan neu o natur hollol wahannol i'r orchwyl o greu lluniau yn y stiwdio. Fel artist dwi'n sgwennu, ac nid fel beirniad celf na hanesydd celf... fel y dywed Mel Gooding yn ei ragair i 'here+now' y pedwerydd llyfr a ddaeth allan yn ddiweddar. QUOTE fel ysgrifenydd celf a 'beirniad' maen amlwg ei fod e yn

gwahaniaethu rhwng fy ngwaith i ar peth mae sgwenwrs proffesiynol yn ei gwneud.

Mae'n debyg fod yr awch yma i esponio yn dod o'm magwraeth yn y Gymru Gymraeg, ar angen i geisio esponio'r cefndir hwn i'r anwybodusion... y bwrdd hyd yn oed i wneud hyn yng ngwyneb y fath ... a ganfyddais yn y coleg celf ac ar led yn gyffredinol.

Ac yn ail, y teimlad o gario bwrdd yn un mor daer sef esponio celf weledol i'r Cymry! Double bind Mae fy nghof plentyndod yn awgrymu fod llyfrau yn bwysicach lawer i fy nghenedlaeth i nad yw i fy mhiant heddiw.. dwi hefyd yn ymwybodol fod ein ty ni, silffoedd fy nhad, yn llawn o lyfrau, barddoniaeth a nofelau Cymraeg gan fwyaf, ac ambell ... crefyddol. Fy nghof cynnar o weld celf weledol i o dynnu'r llyfr Un Nos Ola Leuad oddiar y silffoedd i wgu ar y clawr o waith Kyffin Williams!. Bu yn beth amser cyn i mi ddarllen y nofel, a ni'm siomwyd. Yn anffodus, ni allaf erbyn heddiw deimlo'r un brwdfrydedd am waith yr artist ar y clawr!.

Ychwanegwch at hyn draddodiad **y Bregeth** sy'n dod o orfod mynd i'r Capel deirgwaith y Sul o oed cyn cof hyd fy ardegau rebelgar, ac mae'n amlwg o ble daw y syniad o 'wers'a 'dameg'.

Teg hefyd dweud fod themau fy ngwaith yn 'llynyddol' yn hytrach na 'gweledol'. Wrth ddweud hyna be dwi'n feddwl ydi.. mae themau syniadol sydd yn bwysig i mi, nid golygfeudd fel tirluniau neu bortreadau.. dwi ddim yn dweud fod 'barddoniaeth' ddim yn bodoli yn y rhain, ond i mi maen rhaid cael i'r 'polemic' ddod i'r blaen, nid esgus i wneud llun i harddu'r wal yn unig. (Dyna pam fod Kyffin yn gyffoethog a fi ddim!) Yna ceisio ffordd o gyfleu syniadau bron ar ffyrf diagram i hwylusor meddwl... nid yw hyn yn golygu bod un 'illustrative', ond fod modd 'darllen' y 'delwed-dau'. Trafodaeth ydynt or "pethe" Er i fobl ddweud fod peintio, celf weledol yn rhydd o ffiniau ieithyddol, dyw hyn ddim yn hollol wir. **PAENTIO YN Y GYMRAEG fydda i yn ei wneud buaswn yn ddweud.... 'polemics' yn hytrach na golygfeudd tirweddol disgrifiadol, syniadau dychmygol, ac orherwydd maen't yn haws i sgwennu amdanynt, maen't yn agos iawn i waith y bardd.** Nid yn unig hyn, ond hefyd mae agosatrwydd a chyfeillgarwch gyda beirdd a llenorion yn y byd clos Cymraeg yn golygu nad yw geiriau yn ddieithr, nad yw gwaith barddonol yn rhywbeth estron i fy ngwaith. Dros rai blynyddoedd yng Nghymru mae wedi yn bosib cael ryw lefel o groesffrwythloni.

Aberhenfelen

[i Iwan Bala]

Mae hi allan acw,
Glan na fynwn ei gweld,
Yn cronni gan lanw ein cur a'n hatgofion:

Ninnau yng Ngwales
Ar arch ein pleserau,
Teras tai ein cymdogaeth

Yn rhannu gwledd, rhannu gwyl,
Rhannu eiliad ddiddiwedd
o ryddid ffug:

ar anterth y pleser,
wrth ddod,
mae'r drws yn agor

a'r dyfroedd yn torri
yn donnau o gof, o gariad,
a chwys a chwerwedd

pob cgenedigaeth a fu erioed
yn ein golchi tua'r aber,
tua'r dwr croyw.

Iwan Llwyd

Nid dyma'r unig gerdd i Iwan sgwennu sydd yn cyd-fynd a lluniau o'm gwaith, na chwaithac i un o gerddi Iwan ysbrydoli lluniau neu ddigwydd 'ar y cyd' fel petai. Yn dilyn arhosiad bur yn efrog Newydd yn 2002, buom yn trafod yn ddwys iawn ac am amser, sefyllfa y byd a ni Gymry o'i mewn, tra'n eistedd mewn ty bwyta Eidalaidd nepell o Ground Zero. Mae'r gerdd hon yn son am brofiad y pryd, pan fu i Iwan fynd mewn i'r Orange Bear Bar a chanfod criw mawr o weithwyr yn yfed yno. Mae'r ffaith fod y digwyddiad hwn wedi sparduno dychymyg y ddau ohonnom, yn hytrach nac unrhyw un or digwyddiadau eraill a ddaeth i'n rhan, yn dangos fod 'symbyliaeth barddonol' pethau, yr un mor llythrennol ir ddau ohonnom'

In transit

[i Iwan Bala]

('Nothing's going on,
just a little transit work, that's all.')

Byddin o dorrwyr beddau
'n dod, fesul un a dau,
i ogle'r Orange Bear Bar,
a chroeso'r cinio cynnar:
dod o'r gwres i gynhesu
a sôn am y pethau sy'
'n aros, eiliadau gwirion,
yn rhywle o hyd lawr y lôn:

fe fuon nhw, aeafau'n ôl,
â'u hafiaith gyfalafol,
yn adeiladu'n union
risie'r sêr o'r ddinas hon,
a'u gorchest yn ymestyn
yn weddi aur at Dduw ei hun:
rhyfyg yn herio crefydd,
adar ewn y farchnad rydd:

daeth adar o le arall,
o fôr y de ar fore dall,
a fflam wen eu hadennydd
yn ffrwydriad ar doriad dydd;
fffenestri'n hollti'n yr haul,
malurio'r temlau araul;
dau ddelw'n lludw, a llwch
dial yn llenwi'r duwch:

mae'r llwch yn nhymer y lle,
a'i ogle'n cleisio'r gwagle:

ar ôl hwrlibwrli'r bar,
y golau 'nghorneli galar,
â'r gwŕ yn ôl tua'r gwaith,
yn ôl at y twll eilwaith,
yn ôl, dan eu hetiau caled,
i gloddio a choncrîtio Crêd.

Aberystwyth
Awst 2002

Mae arddangosfa flynyddol yr Eisteddfod wedi bod yn ethol bardd i roi 'gair am gelf' ers 1997. Ymddengys fod perthnasedd i hyn yng Nghymru, o leia i rhai ohonnom. Ffrwyth gwaith y prifardd Mererid Hopwood yn Eisteddfod Ty Ddewi oedd y geiriau hyn yn cyd fynd a chyfres o luniau yn portreadu Cymru. Ei amlinelliad daearyddol, fel ynys ar y gorwel;

Gorwel Mererid Hopwood

Wele rith....
ymyl rhyw ynys
nad ywn bod yn y byd,
ond ar gwmpawd hud,
ynys chwe adlais
a'i chwedlau ar linellau pelydrau pell,
ynys hynod,
lle i ddewin rodio
neu hedfan ar aden gwylan yn gampau i gyd

ynys un bys a bawd,
hen ben bach a phen-glin plyg
ynys yr hanner mynwes
sy'n rhoi'n y dwr ei darn o dir

ynys y suddo diddiwedd
a'r marw hir

yn wir,
yn wir
wele rith.....

Y Gorwel, Mererid Hopwood. (Wedi ei gyfansoddi i ddarlun gan Iwan Bala yn Eisteddfod Ty Ddewi 2002)

Cafodd y geiriau hyn gymaint o effaith arnaf, nes i mi yn fy nhro, eu cynnwys mewn peintiadau newydd, lle r'oedd ychwanegu yn digwydd, ymhelaethu ar y testyn gwreiddiol yn ngolau y geiriau a symbylau a grewyd gan Mererid.

Rhaid chwilio dramor i ffeindio artistiaid gweledol sydd ar un awch am 'esponio' am gysyniadau tebygol mewn gwaith celf, ac efallai hefyd am artistiaid sydd a chysylltiad syniadol a chorfforol efo llenorion... Zim, Ciwba. Yn amlwg, mae hyn i'w wneud ar anghenrhaid i drafod hunaniaeth mewn diwylliannau ymylol, gorthrymedig ac ol drefedigaethol. Hyn, i mi, yn arwain at weithiau yng Nghymru sydd yn dwyn ysbrydoliaeth o'r 'moderniaeth amgenach' a sonir amdano yn g nghyswllt America Ladin, ac i drïo gweld ac esponio Cymru drwy lygaid a llais tebyg. Yn sicr bu

y profiad o wario rhai misoedd yn Zimbabwe yn 1990 yn INSTRUMENTAL mewn agor fy llugaid i ffordd o bortreadu hunaniaith. Teimlais al dod yn ol mod i mewn ryw limbo rhwng dau fyd, a bu gweithiau fel Dyrchafwch eich Adfeilion, rhan o gyfres o weithiau a ddangoswyd yn Oriel, Caerdydd yn 1992, yn un ffordd o ddygydd ar teimlad. R'oedd rhan or peintiad ar y cyntaf, a rhan ar y gwydr o'i flaen, gan greu ryw fath o 'palimpsest' Ar y pryd, r'oeddwn hefyd yn gweithio yn agos efo'r dramodydd Ed Thomas, ac fe ysgrifennodd 'ddeialog' i gyd-fynd ar peintiadau ac a berfformiwyd yn yr oriel gan actorion gydol yr wythnos agoriadol.

Y Santes Mariona. Yn wreiddiol duwies a oedd yn gysylltiedig a theithio, gwarchodwraig y groesffordd rhwng y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Gwnaed offrwm iddi ar drothwy'r flwyddyn newydd..... ayb. Ysgrif a oedd yn cyd fynd ar cerflun/delw hon a gwblhawyd erbyn arddangosfa yn Oriel Davies, Casnewydd yn Ionawr 2000. Trwy greu cyd destyn ffug hanesyddol ir gwaith r'oedd rhyw gyswllt gwahannol yn cael ei wneud efo'r gynulleidfa.

A dyma gerdd a gefais gan Mererid yn ddiweddar iawn, yn ymateb i'r darn.

Mariona'r Ynys.

Lle mae dy galon, Mariona?

Yn y môr unig.

Ar ryw ynys, Mariona?

Yn offrwm hardd
mewn ffrâm hallt
ar allor hen atgofion.

Lle mae dy galon, Mariona?

Ar ddarn o dir
yn rhywle'n y môr
heb angor
nac efengyl sanctaidd mwy,
dim ond gwraidd,
a geiriau iaith.
Tameidiau o eiriau fel hiraeth o hyd.

Lle mae dy galon, Mariona,
santes y fynwes faeth,
mama ein gwalia gaeth?

Mae yma'n gwyllo'r bad yn ymadael
tra'n disgwyl yr haul ar draeth.

Mae yma,
am nad yw hon
yn ddim ond ynys.

Am mai hi yw'r enaid,
a'r hanes,
a hi'r gwir i gyd.

Beth wna dy galon, Mariona?

Ni chei amau dy ddychymyg -
Ti wyddost;
Deil yma'n ceisio ailddyfeisio'r chwedl fud
o hyd ac o hyd -
am mai'r ynys
yw Mariona
a hi yw'n byd.

Mh

Maen't yn dweud fod celf weledol yn ddi-iaith, goruwch iaith. Wrth gwrs, fel popeth arall, mae hi yn iaith iddi hi ei hyn sydd yn trosi ffinniau (er fod y darlenniadau ohonni yn medru newid o le i le ar hyn o bryd, llai tebygol fydd hyn wrth i bawb weld y byd drwy lygaid Americanaidd). Iaith yw celfyddyd, iaith sydd ynghlwm yn y dychymyg dynol fel pob iaith arall, ac un sydd yn newid ac addasu, cydymffurfio neu herio yn ol galwadau y dydd a meddylfryd yr artist unigol a llwythol. Er y ffaith fod celf yn agored i bawb, dim ots o'i hiaith na'i daliadau, mae hi yn dod yn amlwg i mi erbyn hyn, mae paentio yn Gymraeg ydwi'n ei wneud.